

**Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru
Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2020
drwy Microsoft Teams**

Yn bresennol

| | | | |
|----------|-----------|----|-------------------------------------|
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru (LIC) – Cadeirydd |
| Jonathan | Ackland | JA | Llywodraeth Cymru (LIC) |
| Gareth | Barclay | GB | Cyngor Sir y Fflint |
| Lucy | Butler | LB | Cyngor Sir Bro Morgannwg |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |
| Hugo | Cosh | HC | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Janine | Edwards | JE | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Helen | Jones | HJ | Ymchwil y Senedd |
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru (LIC) |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru (LIC) |
| Duncan | MacKenzie | DM | Data Cymru (DC) |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru (DC) |

Cymerwyr nodiadau

| | | | |
|--------|------------|-----|-------------------------|
| Yasmin | Parekh | YP | Llywodraeth Cymru (LIC) |
| Niamh | Yale-Helms | NYH | Llywodraeth Cymru (LIC) |

Siaradwyr

| | | | |
|--------|-------|----|-------------------------|
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru (LIC) |
|--------|-------|----|-------------------------|

Ymddiheuriadau

| | | |
|-------|----------|-----------------------------|
| Chris | Ashford | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Neil | Townsend | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| 1 | Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau | |
|----------|--|--|
| | Agorodd SL y cyfarfod a chroesawodd bawb iddo. Nododd y byddai GJ ychydig yn hwyr ond y byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn fuan. | |
| 2 | Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am bwyntiau gweithredu | |
| | <p>Cytunwyd ar nodyn y cyfarfod diwethaf.</p> <p>Diweddariad ar Bwyntiau Gweithredu'r cyfarfod blaenorol (PCYC 2020-06 Papur 2): Pwynt Gweithredu 3: I'w drafod yn ystod yr eitem ar yr agenda sy'n ymwneud ag Amcanestyniadau Poblogaeth.</p> | |

| | | |
|----------|--|---|
| | <p>Pwynt Gweithredu 10: Dywedodd NJ wrth y rhai a oedd yn bresennol fod gwaith ar ddangosfwrdd rhyngweithiol MALIC wedi'i atal dros dro gan fod gwaith yn ymwneud â COVID-19 wedi cael blaenoriaeth. Bydd y gwaith hwn yn ailddechrau yn y dyfodol ac os oes gan aelodau adborth ar y cynigion o gyfarfod diwethaf PCYC, dylent e-bostio ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.</p> <p>Ychwanegodd NJ fod dadansoddiad newydd o ardaloedd lle mae amddifadedd dwfn wedi cael ei gyhoeddi, ynghyd â chanllawiau pellach ar sut i ddehongli data MALIC.</p> <p>Gofynnodd JE a oes unrhyw ddata o MALIC wedi cael eu defnyddio i lywio unrhyw waith mewn perthynas â COVID-19? Ymatebodd NJ gan ddweud eu bod yn ymwybodol bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi defnyddio MALIC i ddadansoddi marwolaethau COVID-19 yn ôl amddifadedd a bod lechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i ddefnyddio wrth ddadansoddi a mapio ymateb cymunedau i COVID.</p> <p>Pwynt Gweithredu 12: Wedi'i ohirio gan nad oedd cynrychiolydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn bresennol.</p> <p>Pwynt Gweithredu 13: I'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod (Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar COVID-19).</p> <p>Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau eraill ar y Pwyntiau Gweithredu.</p> | <p>Pwynt Gweithredu: Cysylltu â Nita Sparkes (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) er mwyn cael diweddariad ar Bwynt Gweithredu 12 o PCYC mis Chwefror 2020.</p> |
| 3 | Adolygiad o'r papurau gwybodaeth | |
| | <p>Nododd GJ y byddai'r adran hon yn cynnig trosolwg cryno o'r papurau er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Byddai'r rhan fwyaf o'r prif bwyntiau yn cael eu trafod yn ystod yr eitem nesaf ar yr agenda.</p> <p>Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim sylwadau gan aelodau. <p>Diweddariad ar ddemograffeg (gan MP):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd MP y penderfyniad i ohirio'r Arolwg Defnydd Iaith o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol. • Cyhoeddodd SYG amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 ar gyfer y DU a fesul gwlad ar 6 Mai 2020. Amcangyfrifon dros dro yw'r rhain, a gyhoeddwyd yn gynnar er mwyn cynorthwyo gwaith dadansoddi mewn perthynas â COVID-19. Bydd elfennau o newid yn y boblogaeth ym mhob ardal leol yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach ym mis Mehefin 2020. <p>Diweddariad Data Cymru (DC) (gan SS):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae holl swyddfeydd Data Cymru bellach ar gau gyda chydweithwyr yn gweithio gartref, ond pwysleisiodd SS eu | |

| | | |
|----------|---|--|
| | <p>bod yn dal i fod ar gael i gynnig cymorth lle bynnag y bo'n bosibl.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhai enghreifftiau o waith y mae Data Cymru wedi bod yn rhan ohono ers dechrau'r pandemig yn cynnwys casglu data ar effaith ariannol COVID drwy arolwg newydd, a diweddarau dangosfwrdd marwolaethau newydd bob dydd Mawrth. Awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio hwn yn bennaf ac mae Data Cymru yn awyddus i fynd ar drywydd gwaith y gall fod ei angen ar gydweithwyr. • Holodd JE a oes gan Data Cymru dudalen benodol ar ei wefan sy'n crynhoi ei holl ddadansoddiadau mewn perthynas â COVID? Esboniodd SS y bwriedir rhoi hyn ar waith yn fuan ond, ar hyn o bryd, gellir cael gafael ar yr holl ddata drwy glacio ar y faner COVID-19 ar y wefan. | |
| 4 | COVID-19: Diweddariad gan Lywodraeth Cymru | |
| | <p>Esboniodd GJ fod y penderfyniad i holl staff Llywodraeth Cymru weithio gartref wedi peri rhywfaint o bryder o ran casglu/prosesu data ac effeithiau eraill gweithio gartref ond, hyd yn hyn, bod y newid wedi bod yn llwyddiannus.</p> <p>Mae llawer o ddadansoddwyr wedi cael eu hadleoli yn Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19 a'r galw annisgwyl am waith dadansoddol newydd. Mae hyn yn cynnwys symud i dimau newydd megis yr Hyb Dadansoddi COVID-19, a chefnogi cydweithwyr polisi, Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol.</p> <p>Roedd arolygon cartref yn un o'r pethau cyntaf yr effeithiwyd arnynt am fod yn rhaid rhoi'r gorau i arolygon wyneb yn wyneb. Nodwyd yr effeithiwyd ar yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Gweithlu. Mae maint samplau wedi lleihau'n gyflym a chaiff data eu casglu dros y ffôn neu ar-lein erbyn hyn.</p> <p>Nododd GJ pa mor gyflym roedd mesurau newydd wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn ymdopi â'r newidiadau hyn. Y gobaith yw y bydd rhai casgliadau data a ohiriwyd yn gallu aildechrau'n fuan, ac rydym yn aros am benderfyniadau ynghylch gohirio casgliadau a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p> <p>Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru bellach yn cael ei gynnal dros y ffôn. Mae'r dull newydd o gasglu data wedi arwain at rai newidiadau i ddyluniad arolygon gan nad yw'n ymarferol gofyn i ymatebwyr gymryd rhan mewn arolwg 40 munud dros y ffôn. Mae holiadur newydd yn cael ei ddefnyddio ac mae'r pynciau wedi cael eu newid er mwyn adlewyrchu'r hyn sydd o bwys i'r gymdeithas ar hyn o bryd. Mae'r grŵp sampl sy'n cael ei ddefnyddio yr un peth â'r hyn a ddefnyddiwyd yn y casgliad blaenorol gan na fu'n bosibl defnyddio grŵp sampl newydd. Bydd dolen i holiadur newydd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael ei hanfon at bawb.</p> | |

| | |
|---|---|
| <p>Rydym eisoes wedi cael dros 3,000 o ymatebion i'r arolwg; cyfradd ymateb uwch na'r arfer. Mae cynllun i gyhoeddi canfyddiadau'r arolwg bob mis, gyda chwestiynau'n cael eu haddasu yn ystod y flwyddyn. Mae GJ wedi gofyn i Steven Marshall, Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol, gadarnhau a fydd data ar lefel awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yn y datganiadau misol hyn.</p> <p>Mae'r newidiadau i Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi cael effaith ganlyniadol ar yr Arolwg Defnydd Iaith, sydd wedi cael ei ohirio. Caiff yr amcangyfrifon eu cynhyrchu yn seiliedig ar y naw mis o ddata a gasglwyd.</p> <p>O ran data gweinyddol, gwnaed nifer o benderfyniadau i ohirio rhai casgliadau data, oedi rhai casgliadau a lleihau rhai eraill. Ystyriwyd pethau ymarferol megis cau ysgolion a lleihau'r baich ar gyflenwyr data. Ysgrifennodd GJ at Brif Weithredwyr ym mis Mai i amlinellu ei gynlluniau.</p> <p>Yna rhannodd GJ ei sgrin er mwyn cyflwyno ei flog diweddar o ddydd Llun 1 Mehefin, gyda'r ddolen i'r cynllun ar gyfer casgliadau data unigol. Esboniwyd ei bod yn bosibl na chaiff rhywfaint o ddata byth casglu ac y bydd rhywfaint o ddata'n cael eu casglu'n rhannol yn unig neu wedi'u cyfuno â chasgliadau eraill. Y prif bryder y tu ôl i hyn yw ansawdd y data. Bydd effaith ar y dadansoddiad hefyd.</p> <p>Roedd negeseuon ynghylch datganiadau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19 yn fwy ystyriol, gyda llai o negeseuon yn cael eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol lle y bo'n briodol. Bydd allbynnau rheolaidd yn ailddechrau ond mae'n bosibl na fydd dadansoddiadau ychwanegol.</p> <p>Mae'r pandemig hefyd wedi arwain at gasgliadau data newydd a gesglir drwy ddulliau newydd. Mae hyn yn cynnwys data dyddiol gan ysgolion i Data Cymru a data gan y GIG. Mae gwybodaeth reoli sy'n deillio o'r llifau data hyn yn cael ei rhyddhau'n rheolaidd i'r cyhoedd, gyda chyngor priodol ar sicrhau ansawdd.</p> <p>Cyfeiriodd GJ yr aelodau at dudalen friffio ystadegol gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19, sef 'COVID-19 a chynhyrchu ystadegau ac ymchwil gymdeithasol' ac at y we-dudalen lle y gellir dod o hyd i'r datganiadau ystadegol am COVID-19, sef 'Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws (COVID-19)'. Argymhellodd GJ wefan SYG y darparwyd dolen iddi hefyd.</p> <p>Caiff y data cryno am COVID eu rhyddhau bob dydd Llun er mwyn cyd-fynd â datganiad i'r wasg y Prif Weinidog. Maent yn cynnwys data am symudedd, parseli bwyd, addysg a chymorth busnes.</p> <p>Crybwyllodd GJ rai datganiadau eraill sy'n benodol i COVID; roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi data gan Arolygiaeth Gofal</p> | <p>Pwynt Gweithredu: GJ i gadarnhau â Steve Marshall a fydd data ar lefel awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yn natganiadau misol Arolwg Cenedlaethol Cymru.</p> <p>Pwynt Gweithredu: GJ i anfon dolen i holiadur newydd Arolwg Cenedlaethol Cymru</p> |
|---|---|

| | | |
|-----------------|---|---|
| | <p>Cymru ar lefel awdurdodau lleol, sy'n un o brif ddangosyddion data SYG.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â SYG am astudiaeth heintiau ar raddfa fawr gyda'r nod o fesur nifer y bobl yr effeithir arnynt yn y gymuned. Y nod yw ychwanegu Cymru at yr astudiaeth yn fuan. Nodwyd ei bod yn annhebygol y bydd y data'n cael eu rhannu fesul awdurdod lleol oherwydd costau a maint samplau.</p> <p>Nododd HJ pa mor ddefnyddiol yw'r amrywiaeth o ddata sy'n cael ei chyhoeddi wrth ymateb i'r nifer sylweddol o ymholiadau gan Aelodau'r Senedd, a bod cael dolenni i holl ystadegau Llywodraeth Cymru am COVID-19 ar un dudalen wedi bod yn ddefnyddiol iawn.</p> <p>Nododd VD mai ychydig iawn o adnoddau a oedd gan ei hawdurdod lleol ar ddechrau'r pandemig er mwyn bodloni'r gofyniad i gefnogi'r rhai hynny a oedd yn gwarchod eu hunain. Gofynnodd VD a fydd rhestrau gwarchod, y mae'n hawdd cael gafael arnynt, yn cael eu cynnal? Esboniodd GJ fod cael eglurhad o ran y bobl a ddylai gael eu gwarchod wedi cymryd peth amser i ddechrau, a bod y prosiect Jigsaw yn gweithio yn y cefndir er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar ddata cyn gynted â phosibl.</p> <p>Bydd Map Data Cymru, sydd ar gael i rai manylion mewngofnodi, yn darparu mynediad i nifer y cartrefi sydd â phobl agored i niwed, er bod angen cael dealltwriaeth well o feini prawf bod yn agored i niwed a chael data cyn gynted â phosibl.</p> <p>Gofynnodd HC a fyddai unrhyw wybodaeth bellach yn cael ei rhyddhau mewn perthynas â'r effaith ar Arolwg Cenedlaethol Cymru a pha ddata fydd yn cael eu rhyddhau? GJ i anfon dolen i flog yn esbonio hyn. Mae cyhoeddiad wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd y mis a bydd cyhoeddiadau misol parhaus yn dilyn. Serch hynny, ni chaiff llawer o fanylion eu darparu.</p> <p>Nododd DM nad oedd yn credu y byddai'r un faint o brosesau dilysu data ag yr oedd o'r blaen ar ôl y pandemig.</p> | <p>Pwynt Gweithredu: GJ i anfon dolen i flog sy'n esbonio ymhellach effaith COVID-19 ar Arolwg Cenedlaethol Cymru.</p> |
| <p>5</p> | <p>COVID-19: Diweddariad gan aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru</p> | |
| | <p>Nododd GJ fod adroddiad Llesiant Cymru yn ofyniad statudol i adrodd ar ddangosyddion llesiant; bydd yn cynnwys data wedi'u hoedi o'r flwyddyn flaenorol. Mae'n annhebygol y bydd yr adroddiad mor fanwl â'r flwyddyn flaenorol.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd Awdurdod Ystadegau'r DU yn gofyn i'r rhai sy'n bresennol am adborth ar adroddiad Llesiant Cymru eto gan fod ei asesiad Ystadegau Gwladol bellach wedi'i ohirio.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am asesiadau llesiant awdurdodau lleol, p'un a fyddant yn ofynnol erbyn yr un dyddiad cau ac effaith COVID-19 ar yr asesiadau.</p> | <p>Pwynt Gweithredu: GJ i rannu sylwadau JE am effaith COVID-19 ar</p> |

| | | |
|----------|---|--|
| | <p>Nododd JE fod gwaith ar y rhain wedi dechrau cyn y pandemig a bod angen ystyried goblygiadau i bolisiâu, gan gynnwys y dystiolaeth sydd ar gael. GJ i adrodd yn ôl ar hyn i gydweithwyr polisi.</p> <p>Tynnodd VD sylw ei chydweithwyr awdurdod lleol at y ffaith bod nifer o brosiectau wedi'u hatal dros dro yn ei hardal hi. Gofynnodd JE a allai VD rannu crynodeb o'r hyn roeddent yn ei wneud er mwyn cael gwybodaeth? VD i anfon y crynodeb hwn at GJ er mwyn ei ddsbarthu.</p> <p>Nododd GJ, gyda'r newid i rith-gyfarfodydd yn sgil COVID-19, y byddai'n bosibl creu man mwy cydweithredol i PCYC yn y dyfodol.</p> <p>Nododd GB fod yr adroddiad llesiant yn eu hardal nhw bron wedi'i gwblhau a'i fod yn dibynnu'n bennaf ar argaeledd y data. Nododd JE fod posibilrwydd erbyn mis Medi na fydd adroddiad a luniwyd cyn COVID yn bennaf yn adlewyrchu blaenoriaethau sydd wedi newid o ganlyniad i'r pandemig.</p> <p>Nododd VD hefyd fod y pandemig wedi effeithio ar bob maes gwasanaeth ac y bydd pethau'n newid o ganlyniad i hynny. Roedd GB yn cytuno ond nododd, os yw gwaith eisoes wedi cael ei wneud, ei bod yn fuddiol bod yn fwy trosiannol yn eu gwaith.</p> <p>Anogodd GJ y rhai a oedd yn bresennol i rannu adborth ar eu profiadau. Dywedodd JE fod disgwyliadau'r cyhoedd o ran ystadegau wedi newid a bod angen newid y dull polisi.</p> <p>Nododd GJ y bydd yn darparu'r adborth hwn a bod gweinidogion wedi nodi'n glir y bydd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl hyn.</p> <p>Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn gytûn bod amrywiaeth ymhlith awdurdodau o ran y ffordd y maent wedi ymateb i'r sefyllfa. Anogodd GJ y rhai a oedd yn bresennol i rannu unrhyw gyfraniadau pellach â rhestr PCYC.</p> | <p>asesiadau llesiant awdurdodau lleol â chydweithwyr polisi.</p> <p>Pwynt Gweithredu: VD i anfon e-bost ynghylch prosiectau a ohiriwyd mewn awdurdodau lleol at GJ er mwyn iddo ei ddsbarthu i bawb.</p> |
| 6 | Amcanestyniadau Poblogaeth | |
| | <p>Arweiniwyd yr eitem gan Martin Parry - Llywodraeth Cymru.</p> <p>Nododd MP fod SYG wedi cyhoeddi ei Hamcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2018 ym mis Hydref 2019; roedd yr amcanestyniadau hyn wedi dangos newid yn y ddemograffeg amcanol, gan gynnwys gostyngiad anarferol yn y boblogaeth. Cwestiynodd Llywodraeth Cymru hyn ond fe'i sicrhawyd bod y ffigurau'n gywir.</p> <p>Yn dilyn hyn, cytunodd grŵp arbenigol WASP y dylai'r Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol ar gyfer Cymru</p> | |

| | | |
|---|--|---|
| | <p>gael eu hail-seilio ar 2018, a chyhoeddwyd y rhain ym mis Mawrth 2020.</p> <p>Pan gyhoeddwyd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn dros dro 2019 ar gyfer Cymru ar 6 Mai, canfu SYG wall yn yr amcanestyniadau ar gyfer Cymru a oedd yn seiliedig ar 2018, a gaiff ei ddisgrifio'n fanwl ar ei gwefan. Roedd anghysondeb trawsffiniol (65,000 yn rhy isel i Gymru). Mae SYG yn bwriadu cywiro'r amcanestyniadau ar gyfer Cymru yn unig. Cytunwyd ar hyn gyda'r llywodraethau datganoledig a bwriedir eu cyhoeddi erbyn 11 Mehefin, gyda set ddata lawn yn ddiweddarach yn y mis.</p> <p>Ar ôl ymgynghori ag arbenigwyr a grwpiau defnyddwyr, penderfynodd Llywodraeth Cymru dynnu'r Amcanestyniadau Aelwydydd a Chenedlaethol seiliedig ar 2018 oddi ar y wefan. Caiff amcanestyniadau wedi'u cywiro gan Lywodraeth Cymru eu rhyddhau'n fuan (dyddiad i'w gadarnhau).</p> <p>Bydd hyn yn effeithio ar yr Amcangyfrifon o'r Angen am Dai, sydd wedi cael eu gohirio o 20 Mai. Caiff y rhain eu rhyddhau rhywbryd ar ôl i'r Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol gael eu rhyddhau. Nododd JE fod angen cynnal cyfarfod grŵp defnyddwyr cyn gynted â phosibl gan fod angen ystyried materion methodoleg. Cytunodd MP i drefnu hyn.</p> <p>Nododd SL y pwynt gweithredu blaenorol, sef symposiwm arfaethedig ar boblogaeth. Dywedodd MP fod hwn wedi cael ei ohirio. Er mai paratoi'r amcanestyniadau wedi'u cywiro yw'r flaenoriaeth ar hyn o bryd (gan gynnwys Amcanestyniadau Parciau Cenedlaethol) byddai'n bosibl cynnal digwyddiad ar ôl hynny.</p> <p>Nododd GJ y bydd COVID-19 yn effeithio ar rai pynciau yn ymwneud â'r boblogaeth, h.y. cyfradd genedigaethau, a fydd yn ddiddorol i'w trafod.</p> <p>Nododd MP fod yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol wedi cael ei ohirio ond bod SYG yn dal i gyhoeddi data mudo yn seiliedig ar hediadau.</p> <p>Awgrymodd JE fod angen rhoi mwy o bwyslais ar lifau mewnol ar hyn o bryd, gan gynnwys pobl yn symud i mewn ac allan o ddinasoedd poblog.</p> | <p>Pwynt Gweithredu: MP i drefnu cyfarfod grŵp defnyddwyr er mwyn trafod y datganiad amcanestyniadau poblogaeth.</p> |
| 7 | <p>Diweddariad ar y Cyfrifiad</p> | |
| | <p>Bwriadwyd i'r eitem hon gael ei harwain gan Neil Townsend (NT) – SYG ond, oherwydd anawsterau technegol, ni lwyddodd NT i ymuno â'r alwad. Darllenodd GJ ddiweddariad ysgrifenedig a ddarparwyd gan NT.</p> <p>Mae SYG yn parhau i weithio tuag at gynnal y cyfrifiad yn 2021, yn unol â'r canllawiau diweddaraf gan y llywodraethau</p> | |

| | | |
|----------|---|--|
| | <p>perthnasol. Y bwriad yw parhau yn ôl y bwriad, ond bydd COVID-19 yn cael effaith. Ni fydd y gwaith maes i wirio cyfeiriadau yn mynd rhagddo; bydd rhagor o waith ymchwil wrth ddesg yn cael ei wneud yn lle hyn. Bydd gwaith ymgysylltu lleol arall yn cael ei wneud a bydd rhai cyhoeddiadau cysylltiedig y cael eu hoedi.</p> <p>Mae SYG yn datblygu cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd COVID-19 yn cael effaith barhaus. Mae gweithgarwch yn mynd rhagddo mewn perthynas â deddfwriaeth. Mae Gorchymyn y Cyfrifiad wedi mynd drwy'r senedd yng Nghymru a'r DU. Gosodwyd Rheoliadau'r Cyfrifiad gerbron y Senedd ar 1 Mehefin, gan ddod i rym cyn toriad yr haf. GJ i anfon dolen i'r rheoliadau newydd at yr aelodau.</p> <p>Mae SYG yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar-lein drwy gyfres o weithdai rithwir, sydd wedi bod yn llwyddiannus ac wedi denu nifer da o gynrychiolwyr. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad i Gymru yr wythnos ar ôl y cyfarfod PCYC hwn drwy Google Meet. Gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod i GJ os hoffent ymuno â'r cyfarfod, oherwydd gallant fod yn hyblyg o ran gadael i bobl eraill ymuno hyd yn oed os nad ydynt yn rhan o'r grŵp.</p> <p>Nododd VD fod y gweithdy rhithwir y cymerodd ran ynddo yn ddiweddar yn ddefnyddiol ac yn fanwl. Mae'r sleidiau ar gyfer y cyflwyniad hwn ar gael. Hefyd, gofynnodd VD am i'r gwahoddiad Google Meet i gyfarfod y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad i Gymru gael ei anfon at bawb. Ychwanegodd SK nad oedd wedi cael unrhyw ddiweddariadau am y Grŵp hwn ac nad oedd yn gwybod am y cyfarfod nesaf. Bydd GJ yn ymchwilio i hyn.</p> | <p>Pwynt Gweithredu: GJ i anfon dolen i Reoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020.</p> <p>Pwynt Gweithredu: GJ i ofyn am i'r gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad i Gymru gael ei anfon at VD, SK ac unrhyw aelodau eraill sydd â diddordeb mewn ymuno.</p> |
| 9 | Unrhyw fater arall | |
| | <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Hydref 2020.</p> <p>Anogwyd y rhai a oedd yn bresennol i awgrymu eitemau i'w cynnwys ar yr agenda yn y dyfodol yn ychwanegol at y rhai a awgrymwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol.</p> | |

Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu

| Rhif | Cam Gweithredu | Pwy? |
|------|---|----------|
| 1 | Cysylltu â Nita Sparkes (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) er mwyn cael diweddariad ar Bwynt Gweithredu 12 o PCYC mis Chwefror 2020. | NS / FCP |
| 2 | GJ i gadarnhau â Steve Marshall a fydd data ar lefel awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yn natganiadau misol Arolwg Cenedlaethol Cymru. | GJ |
| 3 | GJ i anfon dolen i holiadur newydd Arolwg Cenedlaethol Cymru. | GJ |
| 4 | GJ i anfon dolen i flog sy'n esbonio ymhellach effaith COVID-19 ar Arolwg Cenedlaethol Cymru. | GJ |

| | | |
|----------|---|---------|
| 5 | GJ i rannu sylwadau JE am effaith COVID-19 ar asesiadau llesiant awdurdodau lleol â chydweithwyr polisi. | GJ |
| 6 | VD i anfon e-bost ynghylch prosiectau a ohiriwyd mewn awdurdodau lleol at GJ er mwyn iddo ei ddsbarthu i bawb. | VD / GJ |
| 7 | MP i drefnu cyfarfod grŵp defnyddwyr er mwyn trafod y datganiad amcanestyniadau poblogaeth. | MP |
| 8 | GJ i anfon dolen i Reoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020 at bawb. | GJ |
| 9 | GJ i ofyn am i'r gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad i Gymru gael ei anfon at VD, SK ac unrhyw aelodau eraill sydd â diddordeb mewn ymuno. | GJ / NT |